# CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bell a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

## 665 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr I. Buckley, R. Godfrey a S.T. Wiliam.

## 666 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 667 DATGANIAD CYFRIFON ARCHWILIEDIG 2021/22 (SA151) –

Wrth gyflwyno’r adroddiad, dywedodd yr Arweinydd fod archwiliad y Datganiad o Gyfrifon 2021/22 bellach wedi’i gwblhau gyda fersiwn diweddaraf y Datganiad o Gyfrifon 2021/22 yn ymgorffori'r holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt wedi’i atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

O ystyried effaith pandemig COVID-19 roedd terfyn amser yr archwiliad wedi’i newid o 31 Gorffennaf 2022 i 30 Tachwedd 2022, ond roedd hyn wedi’i ohirio ymhellach oherwydd yr angen i ddiwygio’r cod a rhoi rheoliadau statudol ar waith er mwyn caniatáu newidiadau i’r ffordd yr oedd asedau seilwaith yn cael eu dangos yn y Datganiad o Gyfrifon. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a oedd wedi’i ddiweddaru hefyd wedi’i gynnwys fel rhan o’r cyfrifon diwygiedig yn Atodiad 1, ac roedd y Llythyr Sylwadau wedi’i gynnwys yn Atodiad 2 i’r adroddiad, i’w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru. Roedd adroddiad Archwilio Cymru wedi’i gynnwys yn Atodiad 3.

Dywedodd yr Arweinydd ymhellach fod yr adroddiad wedi’i drafod yn gynhwysfawr iawn yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roedd rhai diwygiadau wedi’u gwneud i’r ddogfen a oedd yn werth eu nodi ac a oedd bellach wedi’u cynnwys yn yr adroddiad i’r Cyngor fel a ganlyn –

- Gwall teipograffyddol yn y paragraff Seilwaith
- Agor cronfeydd wrth gefn eraill wrth ddatgelu cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi
- Nodyn 30 Costau archwilio (gwahaniaeth mewn blwyddyn flaenorol).
- Ychydig o gyfeiriadau yn y nodiadau angen eu diweddaru.

Yn ogystal, roedd paragraff am y Fargen Ddinesig wedi’i ddyblygu ar dudalen 8 o’r cyfrifon a oedd wedi’i gywiro er mwyn i’r fersiwn terfynol gael ei gyflwyno i’r archwilwyr allanol ei lofnodi.

I gloi cynigiodd yr Arweinydd yr argymhellion fel y’u cynhwyswyd yn yr adroddiad ac fe’u heiliwyd gan y Cynghorydd Brooks.

Cymerodd y Cynghorydd Dr. Johnson y cyfle, wrth gytuno â sylwadau’r Arweinydd, i ddiolch i staff y Cyngor a staff Archwilio Cymru am eu gwaith yn archwilio trosiant o bron i £500 miliwn yn 2021-22. Roedd y Datganiad o Gyfrifon yn gyfle defnyddiol i’r Cyngor fyfyrio ar benderfyniadau ariannol a wnaed gan y Cyngor ac i ystyried p’un a oedd y rhagdybiaethau a wnaed yn gywir.

Wrth wneud sylw pellach dywedodd ei bod yn ymddangos bod dau Gyngor gwahanol yn y Fro, un a oedd bob amser yn edrych i wneud toriadau i wasanaethau ac a oedd yn wynebu diffygion enfawr posibl yn ôl yr adroddiadau yn y papurau, a’r llall a oedd, yn ôl llyfrau’r archwilydd, wedi cynyddu’r cronfeydd wrth gefn o £37 miliwn yn ystod dwy flynedd y pandemig, a bron i £24 miliwn yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Fodd bynnag, dywedodd ymhellach fod Archwilio Cymru wedi dweud mai’r Fro oedd â’r lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn o gymharu â gwariant yn y tair blynedd ariannol cyn i’r Coronafeirws ddod ar ein gwarthaf.

Roedd y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ar dudalen 20 yn dangos bod Cronfa Gyffredinol a Chyfrif Refeniw Tai y Fro wedi codi o £91 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2020 i £104 miliwn flwyddyn yn ddiweddarach ac yna i £128 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Pe bai’r Derbyniadau a’r Grantiau Cyfalaf a oedd yn y Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar y dudalen nesaf yn cael eu cynnwys byddai cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy wrth gefn yn codi i fwy na £144 miliwn.

Un o’r rhesymau dros y cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn, meddai, oedd yr ychwanegiad hwyr o grantiau heb eu cynllunio gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn derbyn bod natur y flwyddyn ariannol wedi bod ychydig yn fympwyol ac y gallai cronfeydd newydd annisgwyl roi argraff gamarweiniol, ac ychwanegodd bod angen i’r Cyngor weld i ba raddau y byddai’r grantiau’n cael eu defnyddio yn hytrach na gosod y llinell sylfaen newydd. Dywedodd ymhellach, er cymhariaeth, pan osodwyd y gyllideb ym mis Mawrth 2021, y byddai lefel y cronfeydd wrth gefn a ragwelwyd erbyn mis Mawrth 2022 ychydig yn llai na £47 miliwn, gan gynnwys y gronfa gyffredinol, y cronfeydd

wrth gefn wedi'u clustnodi, a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd hyn yn cyfateb, meddai, i wahaniaeth o £80 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn rhwng y £47 miliwn a ragdybiwyd pan bennwyd y gyllideb a'r sefyllfa go iawn o £128 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ganlynol. Dywedodd nad oedd am or-bwysleisio'r gwahaniaeth ond nodwyd ganddo bod hyn yn dipyn o wahaniaeth.

Yn y bôn, dywedodd mai mater o lywodraethu ydoedd a'r gallu i wneud y penderfyniad cywir ar gyfer preswylwyr yn ogystal â bod yn rheswm pam y byddai gan rai Aelodau rywfaint o amheuaeth ynghylch y rhagfynegiadau bod y sefyllfa'n un dyngedfennol. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai ymhlith y rhesymau dros y cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn – bron i £5.5 miliwn y llynedd, gyda £4.5 miliwn y flwyddyn flaenorol, gan fynd â chyfanswm y Cyfrif Refeniw Tai i bron i £17.5 miliwn gyda tharged o £915,000 ar gyfer cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai ym mis Mawrth 2022.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ymhellach y byddai'r Cyngor yn y tymor hwy yn defnyddio'r arian i adeiladu tai Cyngor newydd oherwydd ei fod yn cymryd tua £5 miliwn yn fwy oddi wrth denantiaid y Cyngor nag yr oedd yn ei wario arnynt bob blwyddyn. Yn ei farn ef roedd yn anfoesol cymryd mwy o arian nag oedd ei angen arno oddi wrth y rhai lleiaf abl i gael dau ben llinyn ynghyd yn ystod yr argyfwng costau byw. Dywedodd ei bod yn anochel bod darn o waith fel y Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys elfennau o adolygu a herio. Un maes o flynyddoedd blaenorol oedd ailddatgan gwerth 772 o garejys o fewn y Cyfrif Refeniw Tai, gan gynyddu gwerth cyffredinol asedau'r Cyngor o £4.25 miliwn. Yn y flwyddyn gyfredol canolbwyntiwyd ar y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg mewn perthynas â dyledion gofal cymdeithasol, lle gosodwyd arwystl ar gartrefi preswylwyr a oedd yn symud i dai gofal cymdeithasol gyda'r arwystl i'w dalu ar ôl i'r tai gael eu gwerthu. Os oedd ei ddealltwriaeth yn gywir gallai'r Cyngor ddisgwyl cael 82% o'r ddarpariaeth o £2.8 miliwn ar gyfer dyledion drwg, yn seiliedig ar brofiad blaenorol.

I gloi, nodwyd gan y Cynghorydd Dr. Johnson ei fod yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o Ddatganiad o Gyfrifon 2021-22 a'u cymhwyso i wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Hooper hefyd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r tîm cyllid am yr holl waith caled a wnaed wrth baratoi'r cyfrifon, ond roedd yn dymuno i'r Arweinydd gynnig arweiniad o ran y meddylfryd a oedd yn berthnasol i'r cronfeydd wrth gefn y manylwyd arnynt yn yr adroddiad gan ofyn p'un a oedd y Cyngor yn taro'r cydbwysedd cywir.

Gwnaeth y Cynghorydd Carroll hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i'r swyddogion cyllid a'r archwilwyr am yr holl waith a wnaed mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon, gan hefyd rannu'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r gwaith o baratoi'r adroddiad. Nodwyd ganddo nad dyma'r amser i drafod cronfeydd wrth gefn, ac y byddai materion o'r fath yn cael eu trafod pan fyddai'r gyllideb yn cael ei hystyried maes o law. Fodd bynnag, wrth gyfeirio at gamddehongliad ynghylch taliadau gofal preswyl, gofynnodd am sicrwydd y byddai hyn yn cael ei gywiro yng nghyfrifon 2023.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson bod oedi wedi digwydd yn ystod 2021/22 o ran gwario'r arian a oedd ar gael, ac ychwanegodd fod y Cyngor wedi cael swm

sylweddol o arian at ddibenion addysg o ganlyniad i bandemig COVID-19 a bod hynny wedi rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda o ran cronfeydd wrth gefn. Roedd angen cronfeydd wrth gefn i sicrhau nad oedd gan y Cyngor ddiffyg yn y pen draw ac er mwyn cyflawni rhai o'r camau gweithredu yr oedd angen eu cwblhau. Roedd gan Lywodraeth y DU ddiffyg o driliwn o bunnoedd, felly roedd yn hanfodol bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal. Manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r staff cyfrifo a'r staff archwilio a oedd wedi gwneud gwaith sylweddol er mwyn cwblhau'r Datganiad o Gyfrifon a dywedodd eto nad dyma'r amser i drafod y ffigurau yn yr adroddiad, ond i gymeradwyo'r cyfrifon fel ag yr oeddent.

Roedd y Cynghorydd Franks, fodd bynnag, o'r farn bod y cyfrifon yn dangos diffyg mawr yn arweinyddiaeth y Cyngor, yn enwedig o ran y cronfeydd wrth gefn. Honnodd fod y trigolion yn "ymbil" am waith cynnal a chadw i'r ffyrdd, ac roedd yn bryderus nad oedd buddsoddiad wedi'i wneud mewn tai ac roedd amheuaeth fawr yn ei farn ef am raglen adeiladu'r Cyngor. O ran y ffigwr diswyddo o £250,000 y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, roedd o'r farn bod hwn yn swm sylweddol y dylid ei egluro naill ai yn y cyfarfod neu drwy e-bost, gan ei fod yn ymwybodol o natur gyfrinachol y mater. O ystyried unrhyw grantiau hwyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, awgrymodd hefyd y dylai'r arweinwyr ymgynghori â'u cydweithwyr yn y Senedd ar y mater hwn.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd, dywedodd yr Arweinydd fod nifer o'r sylwadau a wnaed gan rai Aelodau yn y cyfarfod eisoes wedi eu cynnwys mewn datganiadau i'r wasg yn ddiweddar er bod yr Aelodau yn ymwybodol bod y mater i'w drafod yng nghyfarfod y Cyngor. Dywedodd ymhellach nad oedd amheuaeth y byddai'r sylwadau / datganiadau hefyd yn cael eu hailadrodd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor llawn pan fyddai'r gyllideb yn cael ei hystyried.

Yn ei barn hi, roedd y gyllideb yn gywir ac ar ôl gwrando ar rai o'r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod ac o ystyried y trafodaethau yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, awgrymodd y gallai rhai aelodau o'r Cyngor elwa o hyfforddiant pellach cyn bod ystyriaethau o ran y gyllideb yn mynd at y Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor llawn.

I gloi, nodwyd gan yr Arweinydd bod y cronfeydd wrth gefn i gyd wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad, a'r manylion wedi'u darparu, a dywedodd fod y cyfalaf ysgolion wedi'i nodi fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ynghyd â thrwsio cerbydau ac ati.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau pellach, a thrafodwyd y mater yn y cyfarfod, fe gafwyd wedyn

PENDERFYNWYD –

(1) NODI adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(2) BOD y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi a'i ddyddio gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

(3) BOD y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (o fewn y Datganiad Cyfrifon) ar gyfer 2021/22 yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi a'i ddyddio gan Arweinydd y Cyngor.

(4) BOD Datganiad Cyfrifon 2021/22 yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi a'i ddyddio gan y Maer fel Cadeirydd y Cyngor.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Bod y llythyr sylwadau yn cael ei gymeradwyo, ei lofnodi a'i ddyddio a'i ddychwelyd i Archwilio Cymru.

(3) Bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gymeradwyo, ei lofnodi a'i ddyddio yn ôl yr angen.

(4) Bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo, ei lofnodi a'i ddyddio yn ôl yr angen.